

Crewyr Cadw: Celf Stryd Adnodd Dysgu

Canllaw i athrawon ac i artistiaid sy'n addysgwyr, sy'n defnyddio treftadaeth adeiledig a chelf stryd ar gyfer prosiect dysgu chwe wythnos o hyd yn seiliedig ar y cwricwlwm. #crewyrca dw



Crewyr Cadw: Celf Stryd Aðnodd Dysgu

Mae Crewyr Cadw yn gyfres o adnoddau i helpu athrawon ac addysgwyr i gyflwyno cwricwlwm dysgu creadigol a rhaglenni Arts Award gyda phlant o oedran ysgol. Bwriedir i'r gweithgareddau gael eu defnyddio ar gyfer gwaith sy'n seiliedig ar brosiect, ac awgrymir ffyrdd o ddefnyddio adnoddau treftadaeth lleol a'r amgylchedd adeiledig fel ysbrydoliaeth. Mae hynny'n ategu Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n briodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a hyd at Gyfnod Allweddol 4, yn ogystal ag ar gyfer y rheiny sy'n gweithio tuag at gymwysterau Arts Award.



Menyw'n ymwneud â darn o gelf stryd

Defnyddio'r adnodd hwn

Mae'r canllaw hwn yn darparu fframwaith i athrawon, artistiaid sy'n addysgwyr, a disgyblion archwilio celf stryd gan ddefnyddio amgylcheddau adeiledig lleol i'w hysbrydoli yng nghyswllt Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Bydd defnyddio'r canllaw hwn yn rhoi o leiaf chwe wythnos o wersi, yn cyflwyno'r cysyniad o waith celf sy'n benodol i safle ac yn datblygu sgiliau artistig.

Mae'r adnodd yn edrych yn fanwl ar gelf stryd drwy gydol hanes, gan gynnwys enghreifftiau o Gymru, y DU a'r byd i gyd. Bwriedir iddo roi i athrawon, ac i artistiaid sy'n addysgwyr, y wybodaeth a'r adnoddau i hwyluso prosiect celf stryd o safon gyda grŵp o ddysgwyr.

Awgrymir fframwaith cynllunio prosiect sydd â chysylltiadau clir â'r 'Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn hyrwyddo defnyddio adnoddau diwylliannol lleol ar gyfer dysgu. Mae archwilio celf stryd a'r amgylchedd adeiledig ar gyfer gwaith prosiect yn ffordd ardderchog o gyflawni'r amcan hwn, ac yn amlwg mae'n hwyluso Pedwar Diben y cwricwlwm. Nod y canllaw hwn yw helpu athrawon ac addysgwyr i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio celf stryd i hwyluso'r arddull dysgu hwn, a'ch galluogi i ddatblygu prosiectau o safon i'w defnyddio gyda disgyblion yn yr ysgol, ac mewn lleoliadau addysg gelfyddydol.

Cynnwys

1. Celf stryd a'r amgylchedd adeiledig mewn hanes
2. Ble mae dod o hyd i gelf stryd
3. Celf stryd a'r Cwricwlwm i Gymru
4. Cynllunio prosiect a hwyluso'r Cwricwlwm i Gymru
5. Gweithgaredd: Archwilio celf stryd sy'n benodol i safle
6. Gweithgaredd: Posterï gwleidyddol, celf stensiliau a chreu copïau niferus
7. Gweithgaredd: Stensiliau a ysbrydolwyd gan bensaerniaeth
8. Gweithgaredd: Gwaith llythrennu sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd
9. Syniadau ac adnoddau ychwanegol
10. Dathlu, myfyrïo a dysgu

1.Celf stryd a’r amgylchedd adeiledig mewn hanes

Mae treftadaeth adeiledig yn cyfeirio at unrhyw adeilad, cofeb, strwythur, gosodiad, pensaernïaeth neu olion a grëwyd gan bobl. Mae’n cynnwys safleoedd cyfoes a hanesyddol ac yn cynnwys celf stryd a graffiti.

Drwy gydol hanes, mae pobl wedi defnyddio celf stryd a graffiti fel ffordd o wneud marciau ar dreftadaeth adeiledig. Mae llawer o enghreifftiau yn ffurf ar brotest, sy’n cynnig cyfle i archwilio naratif amgen yn ogystal â thechnegau hanesyddol ar gyfer gwneud marciau, megis defnyddio stensil a phaent chwistrellu.

Mae rhai o weithiau celf cynharaf pobl a’u hymdrechion cynharaf i gyfathrebu yn defnyddio paent chwistrellu a stensil, er enghraifft gwaith celf mewn ogofâu, a grëwyd drwy chwythu paent dros ffurf i greu delwedd ar wyneb craig.

Yn fwy diweddar, mae celf stryd a graffiti wedi’u creu mewn mannau cyhoeddus ar draws Cymru gyfan fel ffordd o wneud sylw cymdeithasol neu wleidyddol, ac yn aml mae straeon diddorol am brotest yn cyd-fynd â’r gwaith. Dyma rai enghreifftiau sy’n dda ar gyfer dechrau trafodaeth yn y dosbarth:



Season’s Greetings gan Banksy



Cofiwch Dryweryn



affiti gan ymgyrchydd dros yr hinsawdd

Mae amgylchedd adeiledig yn fan cychwyn gwych ar gyfer archwilio treftadaeth a diwylliant lleol, a gall helpu i ddatblygu gwerthfawrogiad y disgyblion o'r hyn sydd o'u cwmpas a'r gwerth y maent yn ei weld ynodd.

Nodyn pwysig am gelf stryd a graffiti

Mae'n anghyfreithlon paentio, ysgrifennu neu wneud marciau ar eiddo rhywun arall. Caiff difrod a achosir i adeilad hanesyddol neu heneb gofrestredig, hyd yn oed os yw ar eich tir chi, ei ystyried yn drosedd dreftadaeth ac yn drosedd yng ngolwg y gyfraith. Dylai artistiaid neu arweinwyr prosiectau celf stryd cymunedol ofyn bob amser am gytundeb ysgrifenedig gan berchennog eiddo cyn creu gwaith mewn man cyhoeddus neu ar safle sy'n eiddo preifat.

Mae celf stryd, tagio a graffiti yn anghyfreithlon oni bai bod caniatâd wedi'i roi gan berchennog yr adeilad neu'r safle dan sylw (ac eithrio os yw'n heneb gofrestredig). Mae cael gwared ar gelf stryd yn gostus ac mae'n effeithio ar integriti ein treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru, sy'n rhywbeth yr ydym yn ei werthfawrogi yn ein cymunedau.



Mae Cadw wedi datblygu adnodd i'w ddefnyddio gyda disgyblion, sy'n archwilio troseddau treftadaeth ac yn galw ar blant a phobl ifanc i ddod yn Warchodwyr Treftadaeth. Mae'r adnodd hwn ar gael ar: cadw.llyw.cymru/dysgu/addysg/gwarchodwr-treftadaeth

Rydym yn argymhell bod addysgwyr yn mynd ati ar ddechrau unrhyw brosiect celf stryd i drafod â'r disgyblion, i fanylder priodol, y ffaith bod celf stryd, tagio a throseddau treftadaeth yn anghyfreithlon. Mae'n gyfle i gryfhau eu hymdeimlad o ddinasyddiaeth a'u gwerthfawrogiad o'r amgylchedd adeiledig lleol a safleoedd treftadaeth lleol. Pan gaiff ei chreu'n gyfreithlon, mae celf stryd yn dal i gyfrannu'n fawr i'n diwylliant a gall helpu i ddatblygu sîn gelf fywiog mewn ardaloedd lleol.

Nod yr adnodd hwn yw hyrwyddo celf stryd gyfreithlon a chydabod y ffurf hon ar gelf greadigol. Mae'n canolbwyntio ar ddefnyddio technegau celf stryd ar bapur neu decstilau.

Gwreiddiau celf stryd

Mae Oriel Tate yn diffinio celf graffiti fel term sy'n cyfeirio at destun neu ddelweddau a gaiff eu paentio fel rheol ar adeiladau, gan ddefnyddio paent chwistrellu gan amlaf.

Gellir olrhain gwreiddiau celf stryd i ffurfiau cynnar graffito (crafu), sef ysgrifennu neu dynnu llun ar wal neu arwyneb (neu grafu ar wal neu arwyneb). Mae'r ffurf hon ar wneud marciau yn ffurf hynafol, ac mae enghreifftiau i'w gweld mewn arteffactau diwylliannol ac adeiladau o'r hen Aifft, yr hen wlad Groeg a'r Ymerodraeth Rufeinig.

Ceir rhai enghreifftiau gwych o graffito wedi'i grafu neu'i gerfio ar graig yng Nghymru. Er enghraifft:

- > Y marciau ar y cerrig neolithig yn Siambr Gladdu Bryn Celli Ddu
- > Crafiadau graffiti ar lechen yng Nghastell Dolbadarn, Llanberis
- > Celf ar graig fegalithig yn siambr gladdu Barclodiad y Gawres, Ynys Môn
- > Graffito streic y glowyr, Llanberis



Crafiadau graffiti ar lechen yng Nghastell Dolbadarn, Llanberis



Y marciau ar y cerrig neolithig yn Siambr Gladdu Bryn Celli Ddu

Mae paentio â chwistrell yn gyffredin hefyd mewn hanes cynnar iawn. Yn wir, mae rhai o'r enghreifftiau hysbys cynharaf o farciau a wnaed gan bobl yn rhai sy'n defnyddio rhyw fath o baentio â chwistrell ar waliau ogofâu. Byddai pobl gynnar yn chwythu paent (a wnaed trwy falu pigmentau lliw a oedd mewn creigiau) ar draws eu dwylo neu eitemau eraill i greu siapiau. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar yr un cysyniad â defnyddio stensiliau i baentio â chwistrell, sy'n broses adnabyddus a phoblogaidd ar gyfer creu celf stryd gyfoes ac sy'n cael ei defnyddio gan rai o'r artistiaid stryd enwocaf, megis Banksy.

Mae gwreiddiau graffiti modern yn Efrog Newydd, America yn yr 1970au, ac yn aml defnyddir delweddau a gwaith llythrennu wedi'u paentio â chwistrell i greu gweithiau celf mewn mannau cyhoeddus. Caiff llawer o'r gwaith hwn ei greu yn anghyfreithlon ac, er ei bod yn rhyfeddol ei weld, nid yw Cadw yn cymeradwyo gwneud marciau anghyfreithlon mewn mannau cyhoeddus.

Yng Nghymru, dechreuodd graffiti modern a ysbrydolwyd gan yr hyn a oedd yn digwydd yn Efrog Newydd ymddangos mewn ardaloedd diwydiannol ddechrau'r 1980au. Daeth Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Iard Goed Webbs (Rhydyfelin) a waliau canol Caerdydd ac Abertawe yn gynfas i artistiaid stryd cynnar Cymru, a oedd yn cynnwys Skroe, Coma, RonOne, Eaze a Cam. Erbyn hyn, mae celf stryd sy'n archwilio ystod eang o bynciau i'w gweld ym mhob rhan o Gymru, ac mae artistiaid yn cael eu comisiynu i greu gwaith newydd ochr yn ochr â sîn addysg gelfyddydol a chymunedol lewyrchus y mae ysgolion, plant a phobl ifanc ledled y wlad yn ymwneud â hi.



Paentiad hynafol mewn ogof ym Mhatagonia, gyda dwylo pobl a gyrroedd o wanacoid

2. Ble mae ÷dod o hyd i gelf stryd

Mae ardaloedd o graffiti i'w cael yn y rhan fwyaf o ganol trefi neu ganol dinasoedd, ond mae'r lleoedd penodol y gallech eu harchwilio yn cynnwys:

Port Talbot – Mae ARTwalk Port Talbot yn llwybr celf stryd sydd ag ap ffôn clyfar i gyd-fynd ag ef.

Sir y Fflint – Mae graffiti gan ystod o artistiaid o Gymru a'r DU ac artistiaid rhyngwladol i'w gweld ar long y Duke of Lancaster a ddaeth i'r lan flynyddoedd yn ôl.

Caerdydd – Rhodfa'r Mileniwm (y tu ôl i Stadiwm Principality); Parc Sevenoaks (Grangetown); Stryd Iago (Bae Caerdydd).

Ffin Powys / Ceredigion – Craig Elvis, ar yr A44.

Llanrhystud, Ceredigion – Cofiwch Dryweryn gan Meic Stephens.

Abertawe – Safleoedd amrywiol yng nghanol y ddinas.

Bryste – Stokes Croft; Gŵyl Gelf Stryd Upfest (Bedminster); Amgueddfa Bryste.

Llundain – Leake Street SE1 (o dan Ganolfan y South Bank); casgliad o brintiau celf stryd ac ystafell astudio Amgueddfa V&A; Oriel Lazinc Sackville; Oriel Pure Evil.

Dyma rai artistiaid stryd y gallech archwilio eu gwaith:

- | | |
|-----------------------------|--|
| > Karm, Cymru | > Banksy, y DU |
| > Lloyd the Graffiti, Cymru | > Nomad Clan, y DU |
| > Rarebit, Cymru | > Will Barras, y DU |
| > Unity, Cymru | > Pure Evil (Charles Uzzel Edwards), Cymru |
| > Peaceful Progress, Cymru | > Legoman, y DU |
| > Rmer, Cymru | > Dreph, y DU |
| > Saher Saki, Cymru | > Zabou, Ffrainc |
| > Dime, Cymru | > Miss Van, Sbaen |
| > Inkie, y DU | > Shamsia Hassani, Affganistan |
| > Conor Harrington, y DU | > Dizzy, India/yr Almaen |
| > Hazard, y DU | > David De Leon, Mecsico |



Llong y Duke of Lancaster, Sir y Fflint

3. Celf stryd a'r Cwricwlwm i Gymru

Mae Pedwar Diben y Cwricwlwm i Gymru yn canolbwyntio ar ddinasyddiaeth gadarnhaol. Ym Meysydd Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau, gall dinasyddiaeth gadarnhaol olygu archwilio ein cydberthnasau â'n gilydd; meithrin gwybodaeth am amgylchedd, diwylliant a threftadaeth yr ardal leol; a chyfrannu'n weithredol i'r sîn leol o ran y celfyddydau.

Gallai prosiect celf stryd helpu i gyflawni amcanion y Pedwar Diben trwy helpu i:

- > ddechrau trafodaethau ynghylch pwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd adeiledig lleol
- > archwilio celf gyfoes o safbwynt arferion, proses, cyd-destun a sgiliau
- > datblygu gwybodaeth am safleoedd treftadaeth lleol, eu hanes a'u dyfodol
- > herio hiliaeth, rhywiaeth a bwlio (yn dibynnu ar y thema a ddewiswyd)
- > galluogi dysgwyr i gyfrannu i'r sîn leol o ran y celfyddydau trwy arddangos gwaith mewn lleoliadau celfyddydol lleol
- > meithrin hyder dysgwyr i ymweld â safleoedd lleol sy'n ymwneud â'r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant a 'chymryd cyfrifoldeb' amdanynt
- > dysgu trwy brosiectau trawsgwricwlaidd.

Addasu ar gyfer dysgu cyfunol

Bwriedir i weithgareddau Crewyr Cadw fod yn rhai y gellir eu haddasu ar gyfer dysgu cyfunol, gyda rhai rhannau o'r gweithgareddau yn addas ar gyfer yr ystafell ddosbarth neu weithdy a rhannau eraill yn addas ar gyfer dysgu gartref. Bwriedir hefyd i'r gweithgareddau fod yn rhai y gellir eu defnyddio gyda'r amgylchedd adeiledig lleol, gan roi cyfle i ddysgwyr gael amser creadigol i ffwrdd o'r sgrin a gwella eu llesiant drwy fod yn yr awyr agored.



Graffiti gan Pure Evil

4. Cynllunio prosiect a hwyluso'r cwricwlwm

Bwriad y fframwaith hwn yw mynd â dysgwyr ar daith go iawn, a dysgu o'r broses yn hytrach na chanolbwyntio ar gynnyrch terfynol. Bydd yr amlinelliad hwn o brosiect yn hwyluso llawer o gyfleoedd i ddysgu o brofiad o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a gweithgarwch Arts Award.

Mae'r chwe cham isod yn amlinellu sut y mae prosiect celf stryd a gaiff ei ddatblygu gan ddefnyddio'r fframwaith hwn yn hwyluso amcanion y Cwricwlwm i Gymru.

Cam 1

Archwilio celf stryd (hanesyddol a chyfoes) fel disgyblaeth greadigol

Amcan

Defnyddio platfformau digidol i edrych ar artistiaid a'u gwaith, yn ogystal ag enghreifftiau o gelf stryd o hanes. Ar gyfer dysgwyr hŷn, archwilio'n fanwl ddarn o gelf stryd sy'n benodol i safle, er enghraifft graffiti Cofiwch Dryweryn neu Season's Greetings gan Banksy.

Trafod y cysyniad ynghylch a yw lleoliad darn o waith celf yn rhoi mwy ynteu llai o ystyr iddo, ac a yw'r gwaith yn newid os caiff ei symud i leoliad arall.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Dibenion y Cwricwlwm:

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.

Maes Dysgu:

Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwlfrydig a chreadigol.

Yn fanwl:

Archwilio Cymru, ei thraddodiadau, ei hanes a'i diwylliannau unigryw ac amrywiol; archwilio sut y gellir defnyddio'r celfyddydau mynegiannol i gwestiynu a herio safbwyntiau a bod yn rym ar gyfer newid personol a chymdeithasol.

Cam 2

Archwilio a thrafod darn o gelf stryd sy'n briodol i'ch ardal leol, eich cymuned a thema eich prosiect

Amcan

Ymchwilio i safle sy'n cynnwys celf stryd, a'i archwilio. Mae hwn yn gyfle i ymweld â chelf stryd mewn man cyhoeddus a thynnu sylw at natur 'benodol i safle' celf stryd gyfoes (gweler yr ymarfer a awgrymir yn adran 7).

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Dibenion y Cwricwlwm:

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.

Maes Dysgu:


Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Yn fanwl:

Gall yr ymateb fod yn adwaith syml y synhwyrau i ysgogiad artistig, neu'n ddadansoddiad beirniadol o waith creadigol; deall sut a pham y caiff gwaith creadigol ei ddatblygu a'i greu; mabwysiadu sgiliau a geirfa feirniadol; dysgu sgiliau pwysig mireinio a dadansoddi; myfyrio ynghylch gwaith creadigol pobl eraill gan gynnwys gwaith artistiaid amrywiol o Gymru a thu hwnt.



Baner Wcráin gan yr artist stryd MyDogSighs yng Nghaerdydd

Cam 3

Trafod pa mor briodol yw creu celf stryd mewn mannau cyhoeddus

Amcan

Dylai rhan o'r drafodaeth ganolbwyntio ar ofyn am ganiatâd, gwerthfawrogi mannau cyhoeddus, parchu gwaith celf pobl eraill a defnyddio paent sy'n garedig i'r amgylchedd.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Dibenion y Cwricwlwm:

Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd.

Maes Dysgu:

Y Celfyddydau Mynegiannol

Cam 4

Creu darn newydd o gelf

Amcan

Defnyddio'r gweithgareddau yn y canllaw hwn i arwain sesiynau sy'n golygu bod y dysgwyr yn defnyddio eu dychymyg a'u sgiliau craidd.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Dibenion y Cwricwlwm:

Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Maes Dysgu:

Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Yn fanwl:

Bydd cyfleoedd yn cael eu rhoi i ddysgwyr fod yn arloesol a beiddgar, i greu gwaith unigol ac i ddatblygu eu hunaniaeth eu hunain fel artistiaid yng Nghymru. Mae creu yn gofyn i ddysgwyr ddatblygu a dangos rheolaeth ar ystod o sgiliau, a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth. Mae dysgwyr yn cyfathrebu trwy ffurf gelfyddydol.



Craig wedi'i phaentio â BLM

Cam 5

Rhannu'r prosiect yn ddigidol, mewn arddangosiad, cyflwyniad neu arddangosfa

Amcan

Mae modd creu copïau niferus o waith stensil, felly mae'n gyfle gwyh i greu posteri y gellid eu harddangos yn eich ardal leol, mewn amgueddfa neu oriel gelf leol neu o amgylch tir yr ysgol.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Dibenion y Cwricwlwm:

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.

Maes Dysgu:

Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Yn fanwl:

Mae cyfathrebu yn cynnwys cyflwyno, rhannu, arddangos a chynhyrchu, gan ystyried y gynulleidfa; trawsnewid eu syniadau'n ddiogel ac yn egwyddorol yn waith sydd â gwerth diwylliannol a masnachol, a defnyddio eu sgiliau creadigol i wireddu uchelgais.

Cam 6

Myfyrio ynghylch y dysgu gyda'ch dysgwyr

Amcan

Arwain sesiwn fyfyrrio i drafod y gwaith celf a grëwyd.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Dibenion y Cwricwlwm:

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau.

Maes Dysgu:

Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiad o'r hyn sy'n bwysig:

Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.

Yn fanwl:

Mae ymateb o fewn y celfyddydau mynegiannol yn ysgogi ein hemosiynau a'n deall; dadansoddiad beirniadol o waith creadigol; mae'r gallu i fyfyrrio yn dyfnhau wrth i ddysgwyr gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut a pham y caiff gwaith creadigol ei ddatblygu a'i gynhyrchu; gellir datblygu gwydnwch dysgwyr wrth iddynt gael eu hannog i adnabod sut y gallant wella eu gwaith ac ymateb i adborth gan eraill; dysgwyr yn myfyrio ar effeithiolrwydd eu gwaith eu hunain a gwaith eraill.



Arwyddion ffordd wedi'u haddurno

5. Gweithgaredd: Archwilio celf stryd sy'n benodol i safle

Gall dechrau trafodaeth am gelf stryd sy'n benodol i safle fod yn gymhleth, oherwydd bod haenau niferus o ystyr yn perthyn i lawer o weithiau adnabyddus. Fodd bynnag, mae celf stryd yn cynnig cyfle cyntaf gwerthfawr i archwilio gwaith celf sy'n benodol i safle, ac mae'n hwyl ac yn hygyrch. Dyma awgrym ar gyfer sesiwn ragarweiniol a fydd yn helpu i gyflawni hyn ac yn annog y disgyblion i gael yr hyder i gynnig eu syniadau eu hunain.

Camau i'w cymryd:

1. Rhannu delwedd o ddarn adnabyddus o gelf stryd.
2. Rhannu peth gwybodaeth allweddol am y safle lle mae'r gwaith ac am yr ardal o'i amgylch, er mwyn rhoi cyddestun i'r gwaith.
3. Trafod yr hyn y mae'r ddelwedd o gelf stryd yn ei gynrychioli:
 - Ar ba adeilad y mae'r gwaith celf?
 - A oes unrhyw gysylltiadau â'r amgylchedd lleol neu â'r lle?
 - A oes unrhyw gysylltiadau â'r bobl leol neu â grŵp penodol o bobl mewn cymdeithas?
 - A oes unrhyw gysylltiadau â diwydiant neu gymdeithas?
 - A yw'r gwaith celf yn gwneud sylw ar wleidyddiaeth?
 - Beth a ddigwyddodd i'r gwaith celf ar ôl iddo gael ei greu?
4. Yn awr, lluniwch fap meddwl o'r cysylltiadau rhwng y gwaith celf a pherthnasedd y safle.
5. Trafodwch a yw'r un ystyr yn perthyn i'r gwaith celf os caiff ei symud o'i safle gwreiddiol.
6. Trafodwch a yw stori'r hyn a ddigwyddodd i'r gwaith celf ar ôl iddo gael ei greu yn cyfrannu i'w ystyr.
7. Yn awr, myfyriwch ynghylch y sesiwn a thrafodwch a yw'r disgyblion yn meddwl bod y gwaith celf yn benodol i safle.

Gwaith pellach:

Ar gyfer eu gwaith cartref, dylai'r disgyblion ddefnyddio'r rhyngwrdd i ymchwilio i straeon y darn o gelf stryd. Gallai'r disgyblion ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol hefyd i glywed yr hyn sydd gan bobl eraill i'w ddweud am y gwaith celf. Mae safbwyntiau amrywiaeth o wahanol bobl yn berthnasol i gelf ôl-fodernaidd, er mwyn helpu i ddeall ystyr y gwaith yn llawn.

6. Gweithgaredd: Posterï gwleidyddol, celf stensiliau a chreu copïau niferus

Mae hwn yn weithgaredd gwych ar gyfer mynd i'r afael â phynciau heriol megis hiliaeth, rhywiaeth, cydraddoldeb a dadleuon gwleidyddol. Ceir llawer o enghreifftiau da o gelf stensiliau, arddulliau llythrennu a ffilmiau ynghylch prosesau, y gall y disgyblion ymchwilio iddynt yn annibynnol ar-lein ac y gellir eu defnyddio i'w hysbrydoli.

Er mwyn bodloni nodau'r Cwricwlwm i Gymru, dylai'r disgyblion gofnodi eu proses. Felly, dylech gadw llyfrau braslunio neu ffolio dylunio sy'n cofnodi'r daith gyfan, gan gynnwys y pethau nad ydynt yn gweithio.

Bydd angen y canlynol arnoch:

- > enghreifftiau o gelf stryd wleidyddol briodol i'w rhannu â'r dosbarth
- > mynediad i'r rhyngrwyd (at ddibenion ymchwil)
- > enghreifftiau o stensiliau i'w hystyried er mwyn cael syniadau dylunio
- > cyllyll crefft a byrddau torri
- > paent chwistrellu / pennau chwistrellu / paent posterï neu inc mewn poteli chwistrellu
- > cerdyn tenau neu asetad maint A3
- > papur a phensiliau
- > pen ffelt du
- > papur maint A3
- > tâp masgio.



Camau i'w cymryd:

1. Archwilio celf stryd wleidyddol a phrotest

Fel dosbarth, edrychwch gyda'ch gilydd ar ystod o wahanol ddarnau o gelf stryd. Trafodwch ystyr y gwaith a'r negeseuon y mae'r darnau yn eu cyfleu. Gofynnwch a oes unrhyw ystyr yn perthyn i leoliad penodol y gwaith celf, a myfyriwch ynghylch y cyfnod y cafodd y gwaith celf ei greu ynddo.

2. Moeseg a graffiti anghyfreithlon

Dylech bob amser gynnwys trafodaeth am natur anghyfreithlon celf stryd.

3. Edrych ar y ddisgyblaeth

Fel dosbarth, astudiwch gelf stensiliau fel disgyblaeth, yn ogystal â'r broses y bydd y disgyblion yn ei dilyn. Trafodwch beth sy'n gwneud stensil da (dyluniad eglur a syml gydag arddull graffeg da), edrychwch ar enghreifftiau o stensiliau da, trafodwch gynllun gosod, defnyddiwch stensiliau sy'n bodoli'n barod i roi cynnig ar y broses. Edrychwch yn benodol ar lythrennu a pha ffontiau sy'n gwneud stensiliau da. Ni fydd rhai ffontiau'n gweithio o gwbl. Dylai'r disgyblion gadw nodiadau ynghylch y pethau hyn.

4. Dewis pwnc gwleidyddol

Gyda'r disgyblion, dewiswch bwnc gwleidyddol ystyrion, er enghraifft cydraddoldeb hiliol, yr argyfwng hinsawdd neu bwnc lleol. Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau bach, mewn parau neu'n unigol i feddwl am sloganau byr, bachog ac effeithiol sy'n cefnogi'r ymgyrch a ddewiswyd ganddynt. Cofiwch y bydd y disgyblion yn torri'r llythrennau allan, felly mae'n hanfodol bod y slogan yn fyr ac yn syml.

- > *Gwella llythrennedd: mae'r gweithgaredd hwn yn weithgaredd llythrennedd ardderchog. Defnyddiwch thesawrws i ymchwilio i eiriau y mae llawer o ystyr yn perthyn iddynt.*



5. Gwaith dylunio

Yn awr, mae'r disgyblion yn dewis graffigyn neu ddelwedd syml i gynrychioli eu hymgyrch. Dylent fraslunio'r dyluniad mewn llyfr braslunio.

- > Cyngor am ddylunio: Defnyddiwch graffigau bloc syml sy'n ddu a gwyn ac y gellir eu torri allan yn hawdd. Darparwch rai enghreifftiau o stensiliau sydd ar gael yn hwylus ar y rhyngwrdd.
- > Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol: Dewch o hyd i ap creu stensiliau, a fydd yn trawsnewid y dyluniad cychwynnol yn ddelwedd ddu a gwyn er mwyn helpu i greu stensil syml.

Pan fydd y disgybl yn fodlon â'r ddelwedd a'r slogan, marciwch ganllawiau ar y cerdyn A3 er mwyn sicrhau bod y llythrennau yn y canol ac wedi'u gosod yn iawn. Defnyddiwch sgiliau graffeg i wneud hynny, naill ai'n ddigidol neu gyda phensiliau, prennau mesur a byrddau arlunio. Yna, crëwch ddyluniadau ar gyfer posteri syml, y gellir eu troi'n stensiliau.




6. Creu'r stensil

- > Tynnwch lun y dyluniad o'r stensil ar gerdyn.
- > Defnyddiwch ben ffelt du i amlygu'r graffigyn.
- > Defnyddiwch gyllell grefft (neu dorrwr laser os ydych yn defnyddio proses ddigidol) i dorri'r stensil allan.



7. Creu cynllun dylunio

- > Meddyliwch ym mha drefn y bydd y lliwiau'n cael eu hychwanegu.
- > Meddyliwch am y rhannau o'r stensil y bydd angen eu cuddio yn ystod pob cam, ac a fydd angen gwneud rhannau penodol mewn trefn benodol.
- > Defnyddiwch bensil a'r stensil i dynnu llun o gynllun a'i labelu.



8. Rhoi prawf ar y cynllun

Defnyddiwch bapur sgrap a thâp masgio i guddio rhannau o'r stensil er mwyn gallu cadw'r rhannau hynny'n lân tra byddwch yn defnyddio paent neu bennau chwistrellu ar y rhannau a ddymunir. Dylai'r disgyblion ddilyn eu cynllun, gan wneud nodyn o unrhyw beth nad yw'n gweithio yn union fel y bwriadwyd.




9. Mireinio'r broses

Gan fyfyrrio ynghylch eu gwaith hyd yn hyn, mae'n bosibl y bydd y disgyblion am fireinio eu cynllun a'i addasu fel y gwelant yn dda, cyn rhoi cynnig arall arni. Mae'n bosibl y bydd y disgyblion am arbrofi â thechneg neu gyfuno lliwiau, a dylid eu hannog i wneud hynny.

10. Creu cyfres

Yn awr, dylai'r disgyblion greu cyfres o brintiau gan ddefnyddio gwahanol liwiau ac arbrofi â thechnegau chwistrellu (cyfuno lliwiau, monoton, gwahanol ffyrdd o ychwanegu'r paent).



11. Rhannu ac arddangos y posteri yn yr ysgol neu mewn sefydliad celfyddydol neu ddiwylliannol lleol.

12. Tynnu lluniau âamera o'r posteri a'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol neu mewn arddangosfa ar-lein.

Ymestyn y prosiect:

Rhoi dyluniad y stensil ar grys-t, dilledyn wedi'i uwchgyrchu neu fag cynfas. Bydd llawer o artistiaid stryd yn datblygu brandiau a dillad er mwyn defnyddio'r dyluniad a'r slogan heb effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd adeiledig.

7. Gweithgaredd: Stensiliau a ysbrydolwyd gan bensaerniaeth

Dilynwch y gweithgaredd yn adran 6, ond yn hytrach nag archwilio protest wleidyddol (camau 1 ac 4), ewch ati i archwilio pensaerniaeth. Gwnewch y gweithgareddau isod yn lle'r gweithgareddau a nodwyd yn flaenorol ar gyfer cam 1 ac 4:

Cam 1: Ewch i ymweld ag adeilad neu safle treftadaeth lleol fel dosbarth neu fel tasg gwaith cartref. Gofynnwch i'r disgyblion archwilio manylion yr adeilad gan dynnu lluniau â chamera neu wneud brasluniau o bethau sydd o ddiddordeb iddynt.

Cam 4: Dewiswch un o'r brasluniau neu'r ffotograffau a gasglwyd yng ngham A fel ysbrydoliaeth i ddylunio stensil. Nid oes angen i'r ddelwedd a ddewiswyd gael ei defnyddio i ddarlunio'r adeilad neu'r safle mewn modd realistig; yn hytrach, dylai ysbrydoli darn sy'n darlunio'r adeilad neu'r safle mewn modd haniaethol.



Prosiect celf stensiliau sy'n seiliedig ar yr amgylchedd adeileddig

8. Gweithgaredd: Gwaith llythrennu sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd

Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys llythrennedd yn ogystal â'r celfyddydau mynegiannol, a gall annog trafodaethau ynghylch cynaliadwyedd a'r argyfwng hinsawdd.

Mae'n bwysig ystyried llesiant, gan fod y pwnc hwn yn gallu gwneud i lawer o blant a phobl ifanc deimlo'n orbryderus. Rydym yn argymhell canolbwyntio ar y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gan ystyried sut y gall pobl wrthsefyll yr argyfwng hinsawdd.

Ymchwil i waith llythrennu a geiriau:

1. **Cofnodi gwaith llythrennu yn yr amgylchedd adeiledig:** Fel man cychwyn ar gyfer y gweithgaredd hwn, ewch i ymweld â safle treftadaeth neu ewch am dro o amgylch y dref leol. Gellir gwneud hynny fel dosbarth neu fel tasg gwaith cartref. Gofynnwch i'r disgyblion gofnodi enghreifftiau o waith llythrennu ar adeiladau a chofebau. Gallai hynny gynnwys arwyddion siopau, cofebau a cherfluniau, placiau ac arwyddion ffordd. Tynnwch luniau âamera neu gwnewch frasluniau o unrhyw waith llythrennu sydd o ddiddordeb, gan fynd â'r gwaith ymchwil hwn yn ôl i'r ystafell ddosbarth.
2. **Archwilio arddulliau graffeg:** Ewch ati mewn grwpiau neu fel unigolion i edrych ar yr enghreifftiau o waith llythrennu a gasglwyd gan y dysgwyr. Archwiliwch yr arddulliau graffeg – ystyriwch a ydynt yn newid/sut y maent yn newid gydag amser, a gofynnwch i'r disgyblion beth y maent yn ei hoffi am y gwahanol enghreifftiau.
3. **Ymchwil i eiriau:** Fel gweithgaredd llythrennedd, trafodwch â'r dosbarth eiriau ac ymadroddion sy'n cyfleu'r hyn y maent am ei ddweud am yr argyfwng hinsawdd. A oes geiriau unigol yn gallu gwneud hynny, neu a oes angen ymadrodd? Beth y mae'r geiriau'n ei olygu, ac a oes mwy nag un ystyr yn perthyn iddynt?

Gweithgaredd celf creadigol

Yn awr, dewch â'r ymchwil i waith llythrennu a geiriau ynghyd. Dewiswch un arddull llythrennu ac un gair o'ch ymchwil i ysbrydoli darn o graffiti.

Bydd angen y canlynol arnoch:


- > Papur (mor fawr ag y meiddiwch)
- > Pensiliau
- > Detholiad o bennau marcio a phennau ffelt o wahanol faint

Camau i'w cymryd

1. Dewis gair a fydd yn dal sylw pobl, er enghraifft, ARGYFWNG!
neu DAEAR

2. Tynnu llun y llythrennau

Gan ddefnyddio'r ymchwil i waith llythrennu, dewiswch arddull sy'n ysbrydoli a thynnwch lun y llythrennau mewn pensil.



Gwnewch yn siŵr eu bod mor fawr ag sy'n bosibl er mwyn llenwi'r dudalen gyfan. Mae pob llythyren wedi'i gwneud o fariau, tebyg i estyll pren. Gwnewch amlinell o amgylch pob un o'r llinellau sy'n ffurfio eich llythrennau, er mwyn eu gwneud yn fariau, gan gadw at yr ymyl. Dylai hynny greu llythyren drwchus.




3. Ychwanegu cymeriad

Ceisiwch wneud i'r bariau grymu, gwnewch nhw'n fwy llydan/yn fwy tenau mewn gwahanol fannau, neu ychwanegwch saethau, chwyrladau neu addurn arall.

4. Gwneud y llythrennau'n rhai 3D

Ychwanegwch effaith 3D i'r llythrennau trwy ychwanegu llinellau lletraws o bob un o gorneli'r llythyren a'u cysylltu â'i gilydd.

Mae'n fwy anodd gwneud hynny gyda'r llythrennau O ac S a llythrennau crwm eraill.



5. Llenwi'r llythrennau

Defnyddiwch arddull lliwio sy'n cyfuno lliwiau, defnyddiwch batrymau neu defnyddiwch un lliw yn unig, ond byddwch mor greadigol ag sy'n bosibl. Yna, ychwanegwch amlinelliad du a llenwch yr elfen 3D.



6. Creu cefndir

Ychwanegwch gymeriadau, tirwedd, patrymau neu beth bynnag arall sy'n ymddangos yn briodol, ond defnyddiwch eich dychymyg.

7. Gwneud iddo dynnu sylw

Rhowch liw arall o amgylch y gair 3-D er mwyn ei wneud yn amlwg yn erbyn y cefndir. Pennau marcio neu baent chwistrellu sy'n gweithio orau o ran hynny, gan y byddant yn cuddio'r cefndir neu unrhyw linellau braslunio.



8. Ychwanegu llofnod

Ym maes celf stryd, llofnod yr artist yw'r tag, felly gwnewch eich llofnod mor gelfydd a gwreiddiol ag sy'n bosibl.

Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol:

Mae digon o sesiynau tiwtorial ar ffurf fideos i'w cael ar-lein, sy'n dangos sut mae gwneud llythrennau graffiti. Edrychwch ar sesiynau tiwtorial Olivier Roubieu ar YouTube, lle mae'n rhannu ei wybodaeth am bopeth sy'n gysylltiedig â thynnu lluniau, paentio â chwistrell a murluniau.

9. Syniadau ac adnoddau ychwanegol

Alinio gwaith â'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Dyma rai syniadau ychwanegol am sut i alinio gwaith â Fframwaith Cymhwysedd Digidol y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr:

- > Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r rhyngwrdd i archwilio celf stryd a graffiti.
- > Defnyddiwch raglenni dylunio digidol a thorrrwr laser i greu stensiliau.
- > Gofynnwch i'r dysgwyr greu sesiwn tiwtorial byr ar ffurf fideo, sy'n dangos y broses greadigol a ddilynwyd ganddynt.
- > Ewch ati i greu prosiect dosbarth neu arddangosfa ar-lein am gelf stryd.
- > Defnyddiwch apiau i greu dyluniadau graffiti.
- > Anfonwch syniadau a dyluniadau at artistiaid stryd enwog drwy Twitter. Cofiwch ddefnyddio'r hashnod #crewryrcadw.

Archwilio cyfres Crewyr Cadw

Mae'r gyfres yn cynnwys ystod o adnoddau. Gellir lawrlwytho'r adnoddau i gyd o wefan Cadw: **cadw.llyw.cymru/dysgu**

10. Dathlu, myfyrio a dysgu

Dathlu'r prosiect

Mae dathlu gwaith prosiect yn rhoi cyfleoedd hygyrch i gynnwys rhieni, teuluoedd a'r gymuned ehangach yn yr hyn y mae pob disgybl unigol yn ei ddysgu. Mae'n gyfle hefyd i ddysgwyr fyfyrion ynghylch eu gwaith eu hunain, a gwaith eu cyd-ddysgwyr, a'i drafod yn feirniadol. Gellir gwneud hynny ar-lein, ond yn ddelfrydol dylid ei wneud mewn lleoliad cymunedol.

Dyma rai ffyrdd y gall dysgwyr gyflwyno a dathlu eu gwaith:

- > Dylunio a gosod arddangosfa mewn amgueddfa, oriel neu siop leol er mwyn rhannu'r broses ymchwil ac unrhyw ddeilliannau creadigol. Mae ffenestri siopau gwag yn wych, yn enwedig os oes oriau agor cyfyngedig gan orielau a llyfrgelloedd.
- > Cyflwyno eu gwaith i grŵp lleol sy'n ymwneud â'r celfyddydau, treftadaeth neu hanes, a gwahodd teuluoedd i ymuno.
- > Dylunio gwefan syml er mwyn rhannu'r broses ymchwil ac arddangos eu gwaith celf gorffenedig.
- > Trydar am y prosiect, gan dagio artistiaid celf stryd adnabyddus a sefydliadau ym maes treftadaeth a'r celfyddydau. Gweld pwy sy'n ymateb ac at beth y mae hynny'n arwain (Cofiwch ddefnyddio'r hashnod #crewrcadw).
- > Gall y dysgwyr uwchlwytho eu gwaith i Gasgliad y Werin Cymru (casgliadywerin.cymru).

Myfyrio a dysgu

Agwedd allweddol ar fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru a fframwaith Arts Award yw myfyrio gyda'r myfyrwyr ynghylch eu taith a'r hyn y maent wedi ei ddysgu o'r broses.

Dyma rai syniadau am weithgareddau i helpu i hwyluso hyn:

- > Ewch ati i greu llinell amser ar y cyd o'r daith er mwyn cael gwybod beth oedd uchafbwyntiau'r prosiect i'r dysgwyr.
- > Chwaraewch gemau er mwyn cael gwybod beth y gwnaeth y dysgwyr ei fwynhau, beth y byddent yn ei wneud yn wahanol pe baent yn gwneud y prosiect eto, a beth yr hoffent gael rhagor ohono.
- > Hwyluswch drafodaeth, gyda gweithgareddau ar ffurf gemau, er mwyn gwahodd y dysgwyr i roi sylwadau ar yr hyn y maent yn ei hoffi am waith ei gilydd.
- > Arweiniwch ymarfer map meddwl, gan wahodd y dysgwyr i adrodd y straeon neu'r ffeithiau y maent wedi eu dysgu.
- > Gwnewch gyfweiliad ar gamera gyda'r dysgwyr am eu prosiectau: gofynnwch iddynt



Celf stryd ar ochr adeilad yn Ninbych-y-pysgod

Dysgu pellach i bawb

Mae mwy o adnoddau addysgol, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, gan gynnwys llwyth o weithgareddau celf, ar gael ar ein gwefan:

cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i ymweld ag ef

Cadw.llyw.cymru/ymweld

Gallwch ddod o hyd i adnoddau dysgu gan Cadw, a nifer o sefydliadau eraill sy'n gweithio ym maes y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant, ar Hwb

Hwb.cymru

 @CadwWales

 @CadwWales

 @CadwCymruWales